**Swydd Disgrifiad: Swyddog Prosiect – Ynni Lleu CIC**

**Cyflog**: £29,000 y flwyddyn
**Oriau**: 35 awr yr wythnos
**Cyfnod**: 18 mis
**Lleoliad**: Yr Orsaf, Penygroes
**Gwyliau**: 28 diwrnod (+ gwyliau banc)
**Atebol i**: Yr Orsaf a bwrdd Ynni Lleu

**I Ymgeisio:**
Anfonwch eich CV a llythyr cais (hyd at 2 dudalen) i: sion.yrorsaf@gmail.com
Dylai eich cais egluro'n glir sut rydych yn bodloni gofynion y swydd, ynghyd â'ch addasrwydd yn erbyn y fanyleb bersonol.
**Dyddiad cau: 12:00 16/04/2026**
Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus baratoi cyflwyniad byr ar gyfer y cyfweliad.
**Dyddiad Cyfweliad**: **22/04/2026**

**Am Ynni Lleu**
Mae Ynni Lleu yn gwmni buddiant cymunedol (CIC) sy'n datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth gymunedol yn Nyffryn Nantlle. Mewn partneriaeth ag Yr Orsaf, ein nod yw creu system ynni leol fwy cynaliadwy, lle mae budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn aros o fewn y gymuned.

**Cyd-destun y Prosiect**
Mae'r rôl yma wedi'i hariannu i ddatblygu portffolio o brosiectau ynni adnewyddadwy, gan adeiladu ar waith mapio diweddar sydd wedi nodi cyfleoedd mewn solar, hydro, gwynt a rhwydweithiau gwres. Bydd y swydd yn canolbwyntio ar symud y cyfleoedd hyn o gam cynnar i fod yn brosiectau hyfyw ac yn barod ar gyfer buddsoddiad.

**Pwrpas y Swydd**
Bydd y Swyddog Prosiect yn arwain ar ddatblygu portffolio o brosiectau ynni adnewyddadwy drwy adnabod a blaenoriaethu cyfleoedd, a chydlynu astudiaethau dichonoldeb (technegol, grid a chynllunio). Byddant yn datblygu modelau busnes ac achosion busnes, gyda'r nod o symud o leiaf tri phrosiect tuag at gam buddsoddi.
Bydd y rôl yn cynnwys gweithio'n agos gyda ymgynghorwyr a phartneriaid i asesu risgiau cynnar a datblygu modelau arloesol megis ynni lleol, "energy clubs", a dulliau perchnogaeth gymunedol. Bydd hefyd yn arwain ar ymgysylltu gyda'r gymuned a rhanddeiliaid, gan drefnu cyfarfodydd ac ymgynghoriadau i sicrhau cefnogaeth leol i brosiectau.

Yn ogystal, bydd y Swyddog yn cynrychioli Ynni Lleu mewn rhwydweithiau perthnasol, yn rheoli cyfathrebu dwyieithog, ac yn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith. Byddant yn gyfrifol am fonitro cynnydd, cadw cofnodion, a pharatoi adroddiadau i'r Bwrdd a chyllidwyr, ynghyd â chefnogi tasgau gweinyddol ac ariannol gan gynnwys cyllidebau a cheisiadau grant.

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd ag elfen o deithio i safleoedd neu leoliadau gwahanol wrth ymgymryd â dyletswyddau'r rôl, a gweithio rhai gyda'r nosau lle bo angen e.e. Cyfarfodydd bwrdd a chyfarfodydd cyhoeddus.

**Manyleb Personol**
**Hanfodol**

- Profiad o reoli neu gydlynu prosiectau perthnasol
- Sgiliau trefnu, rheoli amser a blaenoriaethu cryf
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol gyda rhanddeiliaid amrywiol
- Gallu gweithio'n annibynnol ac ar sawl prosiect
- Dealltwriaeth o gynaliadwyedd a datblygu cymunedol
- Rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Sgiliau TGCh cryf
- Trwydded yrru

**Dymunol**

- Profiad yn y maes ynni adnewyddadwy neu ynni cymunedol
- Dealltwriaeth o brosesau cynllunio, grid neu adeiladu
- Profiad o ddatblygu achosion busnes a modelau ariannol
- Profiad o geisiadau grant a chaffael
- Dealltwriaeth o Ddyffryn Nantlle / Wynedd / Gogledd Cymru

**Beth Rydym yn ei Gynnig**

- Trefniadau gweithio hyblyg
- Cyfle i arwain ar brosiectau ynni cymunedol arloesol
- Amgylchedd gwaith cefnogol
- Cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol

Am unrhyw ymholiadau neu gwestiynau ynhgylch y swydd yma, cysylltwch â [sion.yrorsaf@gmail.com](mailto:sion.yrorsaf@gmail.com)